# SL(6)552 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Rhif 2) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, o ran Cymru, Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r Undeb (EUR 2019/1793).

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth i ddiweddaru'r rhestrau o fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn Atodiadau 1 a 2 i EUR 2019/1793. Mae rheoliad 2(5) a (6), ac Atodlenni 1 a 2, yn amnewid yr Atodiadau hynny. Amnewidir Atodiad 1 drwy ddefnyddio pwerau yn Erthyglau 47(2)(b) a 54(4)(a) o Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (EUR 2017/625). Amnewidir Atodiad 2 drwy ddefnyddio pwerau yn Erthygl 53 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178) ac Erthygl 54(4)(b) o EUR 2017/625.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio EUR 2019/1793 (drwy ddefnyddio pwerau yn Erthygl 34(6) o EUR 2017/625) i wneud darpariaeth mewn perthynas â samplu a dadansoddi ar gyfer y perygl pentacloroffenol a deuocsinau mewn gwm guar a restrir yn Atodiad 1 (fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn). Mae rheoliad 2(2) a (4) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i EUR 2019/1793 yn dilyn dileu'r cofnod yn Atodiad 2 ar gyfer gwm guar (gan y Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024, i ddileu diwygiadau cynharach i EUR 2019 /1793 a ddisodlir gan y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r

Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg;**

Yn rheoliad 2(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, nodir lleoliad y testun i'w ddiwygio fel "In Article 3**(d)**…". Ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi bod y testun "Yn Erthygl 3**(b)**…".

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall a nodwyd yn ystod ein gwaith craffu ar Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024. Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny, yn Atodiad 2 i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Sudan (SD), yn yr ail golofn, yn y testun Cymraeg, cafodd y geiriau Saesneg "Groundnut flours and meals" eu cyfieithu i'r Gymraeg fel "Blawd a phrydau bwyd cnadaear". Fodd bynnag, ni ddylai'r geiriau hyn fod wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg oherwydd na wnaed Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn Gymraeg (gan nad yw'n un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd). Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio'n gywir at "Groundnut flours and meals".

Ni chyfeirir at hyn yn adran 2 o'r Memorandwm Esboniadol (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.